

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

Y Cynghorydd Martin Hughes

Ward: Dwyrain Maesteg

Plaid: Llafur Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2023. Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Dwyrain Maesteg ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o bedwar pwyllgor. Fy nghofnod presenoldeb o holl gyfarfodydd y cyngor a phwyllgorau yw 37 allan o 37 (100%).

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 252 o ymholiadau gan etholwyr a/neu ward yn ffurfiol gyda'r Cyngor. Rwyf hefyd wedi codi materion ar ran etholwyr gyda sefydliadau eraill, Cymdeithas Tai Cymorth i'r Arfordir yn bennaf. Mae hyn yn ychwanegol at gynorthwyo gyda thua 30 o faterion eraill yr ydych chi wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf fi wedi mynychu amrywiaeth o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward yn cael ei chynnal.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth drwy ddefnyddio'r ddolen hon:

[Y Cynghorydd Martin Hughes](#)

Gweithgarwch yn yr Etholaeth

Rwyf wedi mynychu 4 cymhorthfa ar y cyd â'r Aelodau Seneddol ac Aelodau o'r Senedd lleol ac yn cynnal "taith gerdded o amgylch y ward" yn wythnosol - fel arfer ar fore Gwener - a gwneud yn siŵr fy mod yn ymweld â phob stryd yn y ward yn rheolaidd.

Dosbarthais daflen i bob drws yn y ward ym mis Hydref 2022 a oedd yn cynnwys gwybodaeth am sut y gall etholwyr gysylltu â mi ac yn amlinellu'r materion allweddol y gallwn helpu gyda nhw.

Rwy'n treulio llawer o'm hamser rhydd yn nhref Maesteg ac o'i chwmpas ac rwyf bob amser yn barod i drafod unrhyw faterion sy'n peri pryder yr hoffech chi eu codi gyda mi.

Mae gen i rif ffôn symudol pwrpasol fel y gall preswylwyr gysylltu â mi bob amser. Rwy'n postio'n rheolaidd ar fy nhudalen Facebook fel cynghorydd, sy'n darparu ffordd effeithiol o roi cyhoeddusrwydd i wasanaethau'r Cyngor yn lleol ac i annog adborth a deialog.

Dechreuais y dudalen yn fuan ar ôl cael fy ethol, ac erbyn hyn mae gen i fwy na 300 o ddilynwyr. Mae hyn hefyd yn caniatáu i drigolion anfon neges ataf os oes angen fy nghymorth. <https://www.facebook.com/martin4maesteg/>

Rwyf wedi mabwysiadu ymagwedd gwaith tîm tuag at faterion lleol ac rwyf mewn cysylltiad rheolaidd â chydweithwyr sy'n gwasanaethu ar Gyngor Tref Maesteg.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Mae gen i ddiddordeb mawr mewn sicrhau bod y gwaith adnewyddu i Neuadd y Dref Maesteg yn cael ei gwblhau i safon uchel cyn gynted â phosibl.

Rwy'n ymwneud yn agos â chynlluniau adfer tir ym Maesteg, yn enwedig ar hen safle Golchfa Dwyrain Maesteg. Yn nhymor yr Hydref 2022, fe wnes i gydgysylltu'n agos â thrigolion lleol a'r Cyngor i sicrhau bod gwybodaeth am y gwaith ymchwilio i'r safle yn cael ei chyfleu i bawb sydd â diddordeb, ac rwy'n edrych ymlaen at hyrwyddo cynllun gwella a fyddai'n gwella amwynder hamdden a gweledol y rhan hon o'n cefn gwlad.

Rwyf wedi bod yn mynd ar drywydd cynnydd ar ddatblygu llwybr cymunedol newydd i Gwm Llynfi

Mae fy sylw wedi troi yn ddiweddar at fynd i'r afael â phroblem eiddo adfeiliedig yn y ward, gan gynnwys y trefedigaethau hynny o garejys segur sy'n difetha ein hamgylchedd lleol.

Gweithgareddau/Materion Eraill

Rwyf wedi cyfarfod â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu Lleol ac wedi adolygu materion sy'n peri pryder gyda nhw yn rheolaidd.

Rwy'n Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Plasnewydd ac Ysgol Gynradd Garth.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, ar ôl cael fy mhenodi'n ddiweddar fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu.

Byddaf yn parhau i fynychu pob digwyddiad lleol perthnasol i randdeiliaid, gan gynnwys cyfarfodydd y bwrdd iechyd lleol i ddatblygu gwasanaethau iechyd yng Nghwm Llynfi fel rhan o waith ailddatblygu Ysbyty Maesteg.

Y Cyngorydd Martin Hughes:

Dyddiad: 30/06/2023